

# **Trosolwg a blaenoriaethu prif themâu o arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio (2019).**

Dr Cate L. Williams

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth, IBERS, Prifysgol Aberystwyth

## Cynnwys

|                                                                                                                                                                               |                              |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|
| .....                                                                                                                                                                         | 1                            |
| CYFLWYNIAD .....                                                                                                                                                              | 4                            |
| CANLYNIADAU'R AROLWG .....                                                                                                                                                    | 4                            |
| 1. A YDYCH YN MEINCNODI (CYMHARU) PERFFORMIAD FFISEGOL NEU ARIANNOL EICH BUSNES YN ERBYN BUSNESAU ERAILL TEBYG O RAN UNRHYW UN O'R AGWEDDAU CANLYNOL? .....                   | 4                            |
| 2. A YDYCH CHI WEDI DECHRAU MEINCNODI O GANLYNIAD I UNRHYW UN O'R GWEITHGAREDDAU CYSWLLT FFERMIO CANLYNOL DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF (GELLIR NODI MWY NAG UN ATEB)? .....      | 5                            |
| 3. YDYCH CHI WEDI DEFNYDDIO EICH FFIGYRAU MEINCNODI I NEWID Y FFORDD YR YDYCH CHI'N RHEOLI EICH FFERM DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF? .....                                        | 6                            |
| 4. A OES GAN EICH BUSNES GYNLLUN OLYNIAETH YN EI LE (RHYWUN I GYMRYD YR AWENNAU PAN FYDDWCH CHI'N YMDDEOL)? .....                                                             | 6                            |
| 5. YDYCH CHI WEDI YMGYMRYD AG UNRHYW UN O'R CANLYNOL AR EICH FFERM DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF (DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)? .....                                         | 7                            |
| 6. OS YDYCH CHI WEDI DEWIS UNRHYW UN O'R UCHOD, A YDYCH CHI WEDI DEFNYDDIO'R WYBODAETH HON I NEWID Y FFORDD YR YDYCH CHI'N RHEOLI EICH FFERM DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF? ..... | 8                            |
| 7. A OES GENNYCH CHI UCHELGAIS GLIR AM DDYFODOL EICH BUSNES DROS Y 3-5 MLYNEDD NESAF? .....                                                                                   | 8                            |
| 8. A OES GENNYCH CHI GYNLLUN BUSNES YSGRIFENEDIG YN AMLINELLU SUT Y BYDDWCH CHI'N CYFLAWNI EICH UCHELGAIS? .....                                                              | 9                            |
| 9. (A) YDYCH CHI'N DEFNYDDIO MEDDALWEDD COFNODI ELECTRONIG I REOLI PERFFORMIAD EICH DIADELL/BUCHES AR HYN O BRYD? .....                                                       | 10                           |
| 9. (B) OS FELLY, RHOWCH DDISGRIFIAD O'R MATH O SYSTEM YR YDYCH CHI'ON EI DDEFNYDDIO .....                                                                                     | 11                           |
| 10. (A) YDYCH CHI'N BWRIADU CWBLHAU UNRHYW GYRSIAU HYFFORDDIDANT DRWY CYSWLLT FFERMIO DROS Y 12 MIS NESAF? .....                                                              | 11                           |
| 10. B) OS FELLY, PA FATH O HYFFORDDIANT YDYCH CHI EI ANGEN? .....                                                                                                             | 12                           |
| 11. YDYCH CHI'N YMWBODOL O'R YSTOD EANG O GYRSIAU E-DDYSGU SYDD AR GAEL DRWY RAGLEN CYSWLLT FFERMIO? .....                                                                    | 13                           |
| 12. YDYCH CHI WEDI YSTYRIED PLANNU COED AR EICH FFERM? .....                                                                                                                  | 13                           |
| 13. HEBLAW TB BUCHOL, BETH YW'R BROBLEM IECHYD FWYAF AR HYN O BRYD SY'N BERTHNASOL I'CH DALIAD? .....                                                                         | 14                           |
| AR RADDFA O 1-6, PA MOR BWYSIG YW RHEOLI'R CANLYNOL I'CH BUSNES: (1 = DDIM YN BWYSIG, 6 = PWYSIG IAWN): .....                                                                 | 15                           |
| A) BIOAMRYWIAETH A CHYNEFINOEDD .....                                                                                                                                         | 15                           |
| B) PRIDD .....                                                                                                                                                                | 15                           |
| C) ANSAWDD DŴR .....                                                                                                                                                          | 16                           |
| D) TIRWEDD .....                                                                                                                                                              | ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED. |
| E) DŴR .....                                                                                                                                                                  | 17                           |
| F) ANSAWDD AER .....                                                                                                                                                          | 17                           |
| G) GWASTRAFF .....                                                                                                                                                            | 17                           |
| 14. YDYCH CHI WEDI ARALLGYFEIRIO EICH BUSNES? OS FELLY, I BA FAES? .....                                                                                                      | 18                           |

|     |                                                                                                                                    |    |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| 15. | OS NAD YDYCH CHI WEDI ARALLGYFEIRIO EICH BUSNES, YDYCH CHI’N BWRIADU GWNEUD HYNFY DROS Y 3 BLYNEDD NESAF? .....                    | 19 |
| 16. | PA GYMORTH ARALL HOFFECH CHI EI DDERBYN GAN CYSWLLT FFERMIO I GYNORTHWYO I WELLA EFFEITHLONRWYDD A CHYNHYRCHIANE EICH BUSNES?..... | 20 |
| 17. | YDYCH CHI’N RHAN O UNRHYW GYNLLUN(IAU) SICRWYDD NEU ACHREDU?.....                                                                  | 22 |
| 18. | OS FELLY, CADARNHEWCH BA GYNLLUN: .....                                                                                            | 22 |
| 19. | OS NAD YDYCH CHI’N AELOD AR HYN O BRYD, YDYCH CHI WEDI BOD YN AELOD O GYNLLUN YN FLAENOROL? .....                                  | 23 |
| 20. | YDYCH CHI’N MEDDWL BOD UNRHYW FUDDION O FOD YN RHAN O GYNLLUN SICRWYDD NEU ACHREDU? .....                                          | 24 |
| 21. | LLEOLIAD DAEARYDDOL YMATEBWYR.....                                                                                                 | 25 |
|     | SYLWADAU I GLOI .....                                                                                                              | 26 |
|     | LLYFRYDDIAETH .....                                                                                                                | 27 |

## Cyflwyniad

Mae arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio wedi cael ei gynnal ers tair blynedd bellach. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chanlyniadau'r holiadur diweddaraf a gwblhawyd yn 2019, a fu'n holi 705 o fusnesau ffermio o bob cwr o Gymru.

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ffermwyr yng Nghymru gan alw ar y gwaith ymchwil gwyddonol diweddaraf a rhoi casgliadau allweddol ar waith ar safleoedd arddangos a safleoedd ffocws, yn ogystal â rheoli prosiectau arloesol drwy Bartneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru (EIP Wales). Nod Cyswllt Ffermio yw trawsnewid rhagolygon busnes ar gyfer ffermwyr ledled Cymru trwy gynnig mynediad cymorthdaledig at amrywiaeth o ymgynghorwyr ac arbenigwyr, cyrsiau technegol ac ymarferol a thrwy gysylltu ffermwyr lleol gyda'i gilydd er mwyn rhannu arfer dda.

Yn arolwg gwaelodlin 2019, roedd aelodau'n sôn am fuddion grwpiau trafod ac ymweliadau â ffermydd eraill, sy'n agwedd sydd wedi cael ei nodi mewn arolygon yn y gorffennol. Mae ffermio yn alwedigaeth draddodiadol sydd yn aml un cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall ac nid yw'r arferion ffermio cysylltiedig yn eithriad i hynny. Mae defnyddio grwpiau o gymheiriaid lleol ac arddangosiadau o gysyniadau newydd ar ffermydd yn rhoi'r cyfle i drafod syniadau, arferion newydd a sut i'w gweithredu ar y fferm. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gwybodaeth yn fwy tebygol o gael ei derbyn mewn amgylchiadau o'r fath gan fod ymdeimlad o grediniaeth ac ymddiriedaeth ymysg ffermwyr. Mae Cyswllt Ffermio yn parhau i ddefnyddio'r dull hwn o addysgu ac yn dod â phobl o ardaloedd gwledig Cymru ynghyd i hwyluso trosglwyddiad gwybodaeth.

Mae'r arolwg gwaelodlin yn cynnig cyfle i gofnodi a dadansoddi barn a syniadau aelodau Cyswllt Ffermio sy'n llywio darpariaeth at y dyfodol. Mae prif ganfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu bod ffermwyr yn ymgysylltu mewn gweithgareddau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio ac yn gallu dehongli'r wybodaeth a dderbynnir a'i defnyddio i wneud gwelliannau ar eu busnesau fferm eu hunain. Ceir hefyd anghysondeb rhwng uchelgeisiau ffermwyr a diffyg cynllun busnes ysgrifenedig i'w cynorthwyo i gyflawni'r nodau hyn, a allai awgrymu bwlch posibl yn y ddarpariaeth. Mae pryderon hefyd yn cael eu lleisio ynglŷn â Brexit, ac mae diddordeb mawr mewn arallgyfeirio a chynlluniau amaeth-amgylcheddol yn dod i'r amlwg.

*Noder.* Ar gyfer cwestiynau 2, 5 a 16, mae cyfanswm yr ymatebion a gasglwyd yn fwy na 705. Mae hyn oherwydd bod ymatebwyr wedi cynnig mwy nag un ateb i gwestiwn penodol gan fod nifer o ddewisiadau wedi cael eu darparu ar gyfer rhai cwestiynau.

## Canlyniadau'r Arolwg

1. A ydych yn meincnodi (cymharu) perfformiad ffisegol neu ariannol eich busnes yn erbyn busnesau eraill tebyg o ran unrhyw un o'r agweddau canlynol?

| Math o feincnodi | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|------------------|--------------------|----------------|
| Ffisegol yn unig | 42                 | 6              |

|                      |     |    |
|----------------------|-----|----|
| Ariannol yn unig     | 81  | 11 |
| Ffisegol ac ariannol | 111 | 16 |
| Cyfanswm ymatebion   | 233 | 33 |
| Dim ymateb           | 472 | 67 |

Ar y cyfan, ni wnaeth mwyafrif y rhai a holwyd (67%) ymateb i'r cwestiwn hwn, gan awgrymu o bosibl nad ydynt yn gwneud unrhyw weithgaredd meincnodi o gwbl. O weddill yr ymatebion a gafwyd, roedd y mwyafrif (16%) yn nodi eu bod yn meincnodi data ffisegol ac ariannol, gyda 11% yn meincnodi data ariannol yn unig. Mae'r canlyniadau'n awgrymu nad yw mwyafrif yr ymatebwyr yn meincnodi o gwbl, felly mae'n bosibl y byddai codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio ar gyfer meincnodi (h.y. gweithdai 'Mesur i Reoli' a'r gwasanaethau cynghori) yn gallu bod o fudd.

Mae tystiolaeth gref hefyd fod ffermwyr yn fodlon gwrandao ar ffermwyr eraill, felly mae'n debygol iawn y byddai clywed profiad ffermwr arall sy'n meincnodi ar hyn o bryd er mwyn gwella'r busnes yn effeithiol iawn oherwydd yr ymdeimlad o ymddiriedaeth a chrediniaeth. Mae hon yn dechneg sydd wedi cael ei defnyddio gan Cyswllt Ffermio mewn digwyddiadau Ffermio ar gyfer y Dyfodol a digwyddiadau 'Mynediad at Gyngor Technegol' ond mae'n bosibl y gallai mwy o astudiaethau achos yn trafod meincnodi fod o fudd.

## 2. A ydych chi wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf (gellir nodi mwy nag un ateb)?

| Gweithgaredd CFf                 | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|----------------------------------|--------------------|----------------|
| Grwpiau Trafod                   | 146                | 21             |
| Agrisgôp                         | 39                 | 5              |
| Academi Amaeth                   | 11                 | 1.6            |
| Tesco (Future Farmer Foundation) | 3                  | 0              |
| Prifysgol Aberystwyth            | 2                  | 0              |
| Arall                            | 6                  | 0              |
| Cyfanswm ymatebion               | 171                | 24             |
| Dim ymateb neu "Amherthnasol"    | 539                | 76             |

Ni wnaeth y mwyafrif o'r rhai a holwyd (76%) ymateb i'r cwestiwn hwn, neu fe wnaethon nhw nodi "Amherthnasol", gan ddangos y rhai hynny nad ydynt yn meincnodi fel y nodir yn y cwestiwn blaenorol yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn meincnodi o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio yn benodol. O'r rhai sydd yn meincnodi eu busnesau o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio, roedd y mwyafrif helaeth (21%) yn gwneud

hynny o ganlyniad i gymryd rhan mewn grwpiau trafod. Roedd gweithgareddau dylanwadol eraill yn cynnwys Agrisgôp (5%) a'r Academi Amaeth (2%).

Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr yn ystyried grwpiau trafod yn fuddiol iawn a'u bod yn mabwysiadu arferion newydd o ganlyniad. Mae addysg gan gymheiriaid yn ddull effeithiol iawn o ddysgu/addysgu gan fod cyfranogwyr yn aml yn fwy tebygol o ddysgu gan eraill sydd wedi rhoi cynnig ar gysyniad newydd, gan roi ymdeimlad o grediniaeth. Ym myd amaeth, mae'r cysyniad hwn yn hanfodol, lle mae gwybodaeth yn aml yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall neu o fewn cymunedau clos. (Foster a Rosenzweig, 1995).


3. Ydych chi wedi defnyddio eich ffigyrau meincnodi i newid y ffordd yr ydych chi'n rheoli eich fferm dros y flwyddyn ddiwethaf?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 175                | 25             |
| Nac ydw            | 85                 | 12             |
| Cyfanswm ymatebion | 260                | 37             |
| Dim ymateb         | 445                | 63             |

Fel y gwelwyd yn flaenorol, ni chafwyd ymateb gan y mwyafrif a holwyd i'r cwestiwn hwn. Wrth ychwanegu'r rhai nad oedd wedi ateb y cwestiwn at y nifer a nododd "Nac ydw", roedd y cyfanswm yn 75%, sy'n cyd-fynd â'r gyfran flaenorol o ffermwyr nad oedd wedi ateb y cwestiwn, ac felly'n debygol o beidio meincnodi o gwbl. Ar y cyfan, roedd 25% o'r rhai a oedd wedi ateb y cwestiwn yn cytuno eu bod wedi defnyddio eu ffigyrau meincnodi i wneud newidiadau i'w arferion rheoli ar y fferm dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, gan fod ffermwyr yn amlwg yn dangos eu gallu i ddefnyddio'r data maen nhw'n ei dderbyn a'i wneud yn berthnasol i'w busnesau er mwyn cyflwyno gwelliannau.

4. A oes gan eich busnes gynllun olyniaeth yn ei le (rhywun i gymryd yr awennau pan fyddwch chi'n ymddeol)?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Oes                | 311                | 44             |
| Nac oes            | 344                | 49             |
| Amherthnasol       | 40                 | 6              |
| Cyfanswm ymatebion | 695                | 98             |
| Dim ymateb         | 10                 | 2              |



Roedd canran yr ymatebion “oes”/”nac oes” wedi’u rhannu’n gymharol gyfartal ar gyfer y cwestiwn hwn - gydag ychydig mwy’n nodi nad oedd ganddynt gynllun yn ei le (atebodd 49% “nac oes” a 45% wedi nodi “oes”). Yn ddelfrydol, byddai’r holl ymatebwyr lle byddai hyn yn berthnasol yn nodi bod ganddynt gynllun olyniaeth yn ei le - er bod cyfradd llwyddiant o 100% bron yn amhosibl dan unrhyw amgylchiadau, mae’n bosibl y byddai modd gwneud gwelliannau yn y maes hwn. Mae Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig gwasanaethau cymorth a phroffesiynol yn ymwneud ag olyniaeth, felly mae’n bosibl mai amlygu’r gwasanaethau hyn i aelodau Cyswllt Ffermio sydd angen, neu ystyried gwahanol ddulliau darparu (h.y. cynnwys fideo). Cafwyd ymgysylltiad da gyda’r cwestiwn hwn, gyda 10 yn unig yn dewis peidio ag ateb (cyfradd ymateb o 98.6%).

5. Ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw un o’r canlynol ar eich fferm dros y flwyddyn ddiwethaf (dewiswch bob un sy’n berthnasol)?

| Gweithgaredd                                 | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|----------------------------------------------|--------------------|----------------|
| Monitro iechyd anifeiliaid                   | 411                | 34             |
| Mesur glaswellt                              | 80                 | 7              |
| Samplu silwair                               | 258                | 22             |
| Samplu pridd neu gynllunio rheoli maetholion | 444                | 37             |
|                                              |                    |                |
| Un gweithgaredd                              | 202                | 29             |
| Dau weithgaredd                              | 211                | 30             |

|                                       |      |              |
|---------------------------------------|------|--------------|
| Tri gweithgaredd                      | 147  | 21           |
| Pedwar gweithgaredd                   | 32   | 4            |
|                                       |      |              |
| Cyfanswm ymatebion                    | 592  | 84           |
| Cyfanswm y gweithgareddau a gwblhawyd | 1193 | Amherthnasol |
| Dim ymateb                            | 113  | 16           |

O'r pedwar gweithgaredd unigol a restrwyd, samplu pridd oedd y mwyaf poblogaidd, gydag oddeutu 37% o'r ymatebwyr wedi cymryd y cam hwn, gyda monitro iechyd anifeiliaid yn ail ar y rhestr (34%) a samplu silwair (22%) gydag ychydig llai yn mesur glaswellt. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn nodi eu bod wedi cwblhau mwy nag un gweithgaredd. Y cyfuniad mwyaf poblogaidd (17%) oedd samplu pridd, samplu silwair a monitro iechyd anifeiliaid (data heb ei ddangos). O'r ymatebion, roedd 28% wedi ymgysylltu gydag un gweithgaredd, 30% wedi ymgysylltu gyda dau weithgaredd, 20% wedi ymgysylltu gyda thri gweithgaredd a 5% gyda phob un o'r pedwar gweithgaredd. Yr ail gyfuniad mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd samplu pridd a monitro iechyd anifeiliaid, sy'n gyfrifol am 14% o'r ymatebion. Ar y cyfan, dim ond 16% o'r rhai a holwyd nododd nad ydynt yn ymgymryd â'r un o'r gweithgareddau uchod, sy'n gyfran cymharol fach. Yn ogystal, mae'n galonogol gweld bod tueddiad i gymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd, gan awgrymu bod ffermwyr yn gweld budd o'r gweithgareddau a'u bod yn werth eu gwneud.

6. Os ydych chi wedi dewis unrhyw un o'r uchod, a ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth hon i newid y ffordd yr ydych chi'n rheoli eich fferm dros y flwyddyn ddiwethaf?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 546                | 77             |
| Nac ydw            | 51                 | 7              |
| Dim ateb           | 108                | 15             |
| Cyfanswm ymatebion | 597                | 85             |

Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (77%) yn nodi eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio i newid eu harferion rheoli. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr nid yn unig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynigir gan Cyswllt Ffermio, ond hefyd yn dehongli ac yn defnyddio'r data maen nhw'n ei dderbyn er mwyn gwella eu busnesau.

7. A oes gennych chi uchelgais glir am ddyfodol eich busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf?


| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Oes                | 506                | 72             |
| Nac oes            | 193                | 27             |
| Dim ateb           | 6                  | 0              |
| Cyfanswm ymatebion | 699                | 99             |

Cafwyd lefel uchel o ymgysylltiad gyda'r cwestiwn hwn, gyda chwe ymatebwr yn unig un dewis peidio ag ateb (cyfradd ymateb o 99%). Roedd mwyafrif yr ymatebion (72%) yn awgrymu bod gan y rhai a holwyd uchelgais neu nod clir mewn golwg ar gyfer eu busnesau dros y 3-5 mlynedd nesaf.

8. A oes gennych chi gynllun busnes ysgrifenedig yn amlinellu sut y byddwch chi'n cyflawni eich uchelgais?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Oes                | 136                | 19             |
| Nac oes            | 560                | 79             |
| Dim ateb           | 9                  | 1              |
| Cyfanswm ymatebion | 696                | 99             |

Unwaith eto, cafwyd cyfradd ymateb uchel (99%) i'r cwestiwn hwn; fodd bynnag, roedd y mwyafrif (79%) yn nodi nad oedd ganddynt gynllun ysgrifenedig. Mae hyn yn awgrymu o'r rhai sydd wedi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn blaenorol yn nodi bod ganddynt uchelgais glir, dim ond 12% ohonynt sydd hefyd yn meddu ar gynllun busnes ysgrifenedig yn amlinellu sut y byddant yn cyflawni hynny. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyllid o hyd at 80% tuag at gyngor cynllunio busnes ar gyfer busnesau fferm, felly mae'n bosibl y byddai hysbysebu'r cynnig hwn ymhellach o fudd er mwyn annog pobl i fanteisio ar y gwasanaeth hwn a chynorthwyo aelodau i wireddu eu huchelgeisiau.



9. (a) Ydych chi'n defnyddio meddalwedd cofnodi electronig i reoli perfformiad eich diadell/buches ar hyn o bryd?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 206                | 29             |
| Nac ydw            | 491                | 70             |
| Dim ateb           | 7                  | 1              |
| Cyfanswm ymatebion | 698                | 99             |

Cafwyd ymateb da i gwestiwn 9(a) gyda chyfradd ymateb o 99% a dim ond 7 heb roi ateb. Mae'r canlyniad yn awgrymu nad yw mwyafrif y rhai a holwyd yn defnyddio EID (70%). Bu astudiaeth gan Lima *et al.*, (2018) yn holi ffermwyr y DU ynglŷn â defnydd o dechnoleg EID, a daethpwyd i'r casgliad nad oedd dros hanner o'r rhai a holwyd yn defnyddio EID ar hyn o bryd, nac yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r rhif yma'n cyd-fynd yn fras gyda'r canlyniadau a welir yma; gan awgrymu o bosibl y byddai cyfathrebu tystiolaeth o effeithiau positif EID (e.e. lleihad mewn lefelau cloffni defaid) neu arddangosiadau ar ffermydd yn fuddiol. Fel gyda phob technoleg newydd, mae gan EID broblemau cychwynnol - e.e. un o'r problemau cyffredin yw tagiau'n dod yn rhydd. Ar lafar, credir mai'r rheswm am hyn yw'r pwysau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r dyfeisiau yn y tagiau sy'n gyfrifol, ac mae hynny'n cael ei wneud yn waeth gan y ffaith fod tagiau EID llawer drytach na thagiau clust arferol i gael rhai newydd.

9. (b) Os felly, rhwch ddisgrifiad o'r math o system yr ydych chi'n ei defnyddio

| Meddalwedd EID                             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------------------------------|--------------------|----------------|
| Shearwell                                  | 15                 | 2              |
| Agri data                                  | 10                 | 1              |
| FarmIT                                     | 7                  | 1              |
| Cloriannau/pwyso                           | 5                  | 0              |
| Summit                                     | 5                  | 0              |
| Farm Plan                                  | 4                  | 0              |
| Cofnodion Ilaeth/NMR                       | 4                  | 0              |
| TrueTest                                   | 4                  | 0              |
| Allflex                                    | 3                  | 0              |
| BCMS                                       | 3                  | 0              |
| Uniform Agri                               | 3                  | 0              |
| Dairy Plan                                 | 2                  | 0              |
| Farm Wizard                                | 2                  | 0              |
| Gallagher                                  | 2                  | 0              |
| Darllenydd/ffon heb nodi enw'r gwneuthurwr | 86                 | 12             |
| Arall                                      | 20                 | 3              |
| Cyfanswm ymatebion                         | 175                | 25             |
| Dim ateb                                   | 530                | 75             |

Ar y cyfan, y brand mwyaf poblogaidd o EID a ddefnyddiwyd gan y ffermwyr a holwyd oedd Shearwell (2%). Fodd bynnag, ni wnaeth y mwyafrif a holwyd (12%) nodi brand penodol yr EID, ond yn hytrach y math. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd o lawer oedd y darllenydd ffon, a hynny'n o fod ar y cyd â'r tag clust. Mae nifer yn credu mai darllenydd â llaw megis ffon yw'r offer rhwyddaf i'w ddefnyddio gan ei fod yn gryf, yn fforddiadwy ac yn gludadwy, gan alluogi'r ffermwr i gasglu rhestr o rifau EID oddi ar anifeiliaid mewn grŵp, gan ei wneud yn addas iawn i'w ddefnyddio gyda defaid (Morgan-Davies *et al.*, 2015).

10.(a) Ydych chi'n bwriadu cwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddiant drwy Cyswllt Ffermio dros y 12 mis nesaf?

| Ymateb                             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|------------------------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                                | 386                | 55             |
| Nac ydw                            | 224                | 32             |
| Dibynnu ar ba gyrsiau sydd ar gael | 74                 | 10             |
| Dim ateb                           | 21                 | 3              |
| Cyfanswm ymatebion                 | 684                | 97             |

Roedd mwyafrif (56%) y rhai a holwyd yn nodi eu bod yn bwriadu cwblhau cyrsiau hyfforddiant drwy Cyswllt Ffermio yn ystod y flwyddyn nesaf, ac roedd 11% yn nodi y byddai'n dibynnu ar y cyrsiau sydd ar gael. Gyda'i gilydd, cymaint â 67% o'r ymatebwyr yn bwriadu cwblhau hyfforddiant, sy'n ganlyniad cadarnhaol.

NODER fod cyfanswm yr atebion 'ydw' a 'nac ydw' a 'dibynnu ar y cyrsiau sydd ar gael' yn fwy na 684 gan fod rhai ymatebwyr wedi ateb 'ydw' a 'dibynnu ar y cyrsiau sydd ar gael' gyda'i gilydd.

#### 10. b) Os felly, pa fath o hyfforddiant ydych chi ei angen?

| Ymateb                                   | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|------------------------------------------|--------------------|----------------|
| Sgiliau amaethyddol technegol            | 249                | 35             |
| Sgiliau busnes                           | 139                | 20             |
| Sgiliau amgylcheddol a nwyddau cyhoeddus | 37                 | 5              |
| Cyfanswm ymatebion                       | 280                | 40             |
| Dim ateb                                 | 425                | 60             |



O'r rhai a oedd yn bwriadu cwblhau hyfforddiant drwy Cyswllt Ffermio, roedd y mwyafrif (35%) eisiau cwblhau cyrsiau sgiliau technegol amaethyddol, gyda 20% ohonynt â diddordeb mewn sgiliau busnes.

### 11. Ydych chi'n ymwybodol o'r ystod eang o gyrsiau e-ddysgu sydd ar gael drwy raglen Cyswllt Ffermio?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 392                | 56             |
| Nac ydw            | 294                | 42             |
| Cyfanswm ymatebion | 19                 | 3              |
| Dim ateb           | 686                | 97             |

Roedd mwyafrif yr ymatebion (56%) i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, sef eu bod yn ymwybodol o'r cyrsiau e-ddysgu sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio, ond roedd 42% yn nodi nad oeddent yn ymwybodol. Mae'r nifer hwn yn awgrymu y gallai hysbysebu'r cyrsiau a rhannu gwybodaeth fod o fudd er mwyn ymgysylltu â ffermwyr. Yn 2018, roedd Ofcom yn adrodd rhaniad sylweddol rhwng ardaloedd gwledig a threfol o ran gwasanaeth 4G gan olygu bod nifer o ffermwyr yn dibynnu ar dderbyn gwybodaeth copi caled drwy'r post yn hytrach na chyfathrebu dros e-bost (Ofcom, 2018). Mae astudiaeth Ofcom yn nodi mai dim ond 36% o eiddo gwledig sy'n derbyn gwasanaeth 4G ac nad yw 10% o Gymru'n derbyn gwasanaeth 4G o gwbl (Ofcom, 2018). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu'n rheolaidd drwy'r post yn ogystal ag e-bost er mwyn sicrhau bod pob aelod yn gallu cymryd rhan mewn hyfforddiant.

### 12. Ydych chi wedi ystyried plannu coed ar eich fferm?

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 362                | 51             |
| Nac ydw            | 341                | 48             |
| Cyfanswm ymatebion | 3                  | 0              |
| Dim ateb           | 702                | 99             |

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 12 wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal gyda 52% yn nodi eu bod wedi ystyried plannu coed a 48% yn nodi nad oeddent wedi ystyried plannu coed. Mae hyn yn syndod o bosibl gan fod poblogrwydd amaeth goedwigaeth wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf gyda sefydliadau megis Coed Cadw yn cynnig cyllid a grantiau i'r rhai hynny sy'n plannu coed ar raddfa fawr (30+) a chyllid drwy raglen Creu Coetir Glastir (Gov.uk, 2019; Coed Cadw, 2019; Glastir, 2019). Er hynny, mae'n debygol bod coetir eisoes yn bodoli ar ffermydd nifer o'r rhai a atebodd na.

Mae'n cael ei dderbyn erbyn hyn fod cynyddu presenoldeb coed ar diroedd amaethyddol Cymru yn strategaeth allweddol er mwyn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd. Mae deall pam fod ffermwyr yn ansicr ynglŷn â'r agwedd hon felly'n ffactor bwysig, ac mae angen ymchwilio i hyn.

13. Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem iechyd fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad?

| Problem iechyd                       | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------------------------|--------------------|----------------|
| Cloffni (heb fanylion)               | 82                 | 12             |
| Defaid (penodol)                     | 28                 | 4              |
| Clafr                                | 62                 | 9              |
| Llyngyr yr iau                       | 38                 | 5              |
| Clwy'r traed                         | 38                 | 5              |
| BVD/dolur rhydd                      | 37                 | 5              |
| Niwmonia                             | 25                 | 3              |
| Clefyd Johnne                        | 20                 | 3              |
| Parasitiaid/llyngyr                  | 16                 | 2              |
| Mastitis                             | 14                 | 2              |
| Erthylu                              | 11                 | 1              |
| Ffrwythlondeb                        | 9                  | 1              |
| Cynrhon a llau                       | 8                  | 1              |
| Ymwrthedd gwrthfotigau/anthelminitig | 6                  | 1              |
| Pryfed chwythu                       | 5                  | Amherthnasol   |
| CODD                                 | 5                  | Amherthnasol   |
| Trogod                               | 5                  | Amherthnasol   |
| Maeth                                | 4                  | Amherthnasol   |
| Twymyn Moch Affricanaidd             | 3                  | Amherthnasol   |
| Pryfed                               | 3                  | Amherthnasol   |
| IBR                                  | 3                  | Amherthnasol   |
| Ffliw moch                           | 3                  | Amherthnasol   |
| Arall                                | 26                 | 4              |
| Dim problemau                        | 24                 | 3              |
| Cyfanswm ymatebion                   | 287                | 40             |
| Dim ateb                             | 418                | 59             |

Y pryder iechyd mwyaf cyffredin oedd cloffni yn gyffredinol (12%; heb nodi a yw'n berthnasol i ddefaid neu wartheg) gyda 4% yn nodi problemau cloffni penodol mewn defaid. Roedd ymatebion (5%) hefyd yn nodi bod clwy'r traed mewn defaid yn peri pryder, yn ogystal â CODD (Dermatitis Digidol Defeidiol Heintus), gyda'r ddau ohonynt yn gallu cael eu cofnodi dan faner cloffni mewn defaid. Mae cloffni yn bwnc eang ac mae'r achosion yn gallu bod yn amrywiol iawn.

Roedd clafr defaid hefyd yn peri pryder i'r rhai a holwyd, gyda 9% yn nodi bod hon yn broblem ganolog ar eu ffermydd. Gan fod y cloffni'n cael ei drosglwyddo drwy gludwyr symudol sy'n gallu goroesi am 17 diwrnod yn yr amgylchedd, mae'n heintus iawn.

Cafwyd rhai pryderon hefyd ynglŷn â llyngyr (llyngyr yr iau, *Fasciola hepatica* yn fwyaf tebygol) a BVD (Dolur rhydd firsol buchol) (5% a 5% yn eu tro). Mae llyngyr yr iau yn glefyd pwysig yn economaidd, gan achosi colledion sylweddol o ran cynhyrchiant mewn gwartheg a defaid, gyda mwy o ymwrthedd i driniaethau llyngyr a newid yn yr

hinsawdd yn arwain at dywydd gwlypach a mwynach, mae rheoli llyngyr yn dod yn gynyddol bwysig (Gordon *et al.*, 2012).

Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 = ddim yn bwysig, 6 = pwysig iawn):

a) Bioamrywiaeth a chynefinoedd

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 9                  | 1              |
| 2                  | 21                 | 3              |
| 3                  | 59                 | 8              |
| 4                  | 150                | 21             |
| 5                  | 280                | 40             |
| 6                  | 177                | 25             |
| Cyfanswm ymatebion | 696                | 99             |
| Dim ymateb         | 9                  | 1              |

O gyfanswm yr ymatebion, roedd 65% ohonynt wedi dewis y ddau opsiwn uchaf. Mae'r rhain yn gwyro tuag at yr ochr uchaf (25% yn dewis 6), gan awgrymu bod ymatebwyr yn ymwybodol ac yn pryderu am fioddiogelwch a bywyd gwyllt ar eu ffermydd.

b) Pridd

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 1                  | 0              |
| 2                  | 1                  | 0              |
| 3                  | 11                 | 1              |
| 4                  | 36                 | 5              |
| 5                  | 140                | 20             |
| 6                  | 503                | 71             |
| Cyfanswm ymatebion | 692                | 98             |
| Dim ateb           | 13                 | 2              |

Pan holwyd am bwysigrwydd rheoli pridd ar gyfer eu busnesau fferm, cafwyd ymatebion cryf gyda 71% yn dewis y rhif uchaf ar y raddfa. Gellir gweld perthynas wahanol, fwy uniongyrchol yma, sy'n awgrymu'n gryf bod rheoli'r pridd yn un o brif bryderon ymatebwyr (roedd 91% o'r rhai a holwyd yn nodi bod rheoli'r pridd ar lefel 5 neu 6 o ran pwysigrwydd. Mae'r canlyniad hwn yn galonogol gan ei fod yn awgrymu bod dealltwriaeth dda o'r angen i fonitro a chynnal y pridd er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant a'r elw gorau posibl.

### c) Ansawdd dŵr

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 3                  | 0              |
| 2                  | 2                  | 0              |
| 3                  | 23                 | 3              |
| 4                  | 73                 | 10             |
| 5                  | 291                | 41             |
| 6                  | 298                | 42             |
| Cyfanswm ymatebion | 690                | 98             |
| Dim ateb           | 15                 | 2              |

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn debyg i'r ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud â phridd, ac er bod yr ymatebion ychydig yn llai amlwg, roedd 84% o ymatebwyr yn nodi bod ansawdd dŵr ar lefel pump neu uwch ar y raddfa o ran pwysigrwydd.

### d) Tirwedd

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 4                  | 0              |
| 2                  | 13                 | 2              |
| 3                  | 51                 | 7              |
| 4                  | 176                | 25             |
| 5                  | 335                | 48             |
| 6                  | 108                | 15             |
| Cyfanswm ymatebion | 687                | 97             |
| Dim ateb           | 18                 | 3              |

Mae pwysigrwydd rheoli tirwedd yn debyg i'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau blaenorol, gan ddangos dosbarthiad arferol wedi'i wyro tuag at yr ochr uchaf. Mae hyn yn awgrymu bod ymatebwyr yn pryderu i raddau am gynnal y dirwedd, ond nad yw hynny mor bwysig ag ansawdd y pridd neu'r dŵr. Mae ymateb o'r fath yn galonogol gan fod tirwedd eiconig Cymru'n cael ei gydnabod fel nwydd cyhoeddus, gyda'r rhan helaeth ohoni'n cael ei rheoli a'i chynnal gan ffermwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Gyda dyfodiad Brexit, bydd newidiadau sylweddol i'r cynlluniau talu, gan olygu diwedd ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) sy'n cynnwys y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS). Cynigir y bydd 'Taliad Ffermio Cynaliadwy' yn cymryd lle'r cynlluniau hyn, gyda mynediad at y cyllid drwy 'Adolygiad Cynaliadwydd Fferm' (Llywodraeth Cymru, 2019). Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar wobrwyo parhad arferion ffermio cynaliadwy a mabwysiadu'r arferion hyn. Yr ymateb disgwyledig gan ffermwyr, gan gadw'r wybodaeth hon mewn cof, fyddai pryder cynyddol ynglŷn â'r tir, ansawdd yr aer, rheoli gwastraff, ôl troed carbon a bioamrywiaeth a chynefinoedd ar eu tiroedd.

### e) Dŵr

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 4                  | 0              |
| 2                  | 3                  | 0              |
| 3                  | 23                 | 3              |
| 4                  | 76                 | 11             |
| 5                  | 302                | 43             |
| 6                  | 281                | 40             |
| Cyfanswm ymatebion | 689                | 98             |
| Dim ateb           | 16                 | 2              |

Pan holwyd am bwysigrwydd rheoli dŵr yn gyffredinol, cafwyd ymatebion tebyg i gwestiwn (c). Roedd y mwyafrif (43%) wedi dewis pump a ran pwysigrwydd ac roedd 83% o gyfanswm yr ymatebion wedi dewis pump neu chwech ar y raddfa. Cafwyd ychydig llai o bobl yn dewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn, yn debygol o fod o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltiad ymatebwyr wrth iddynt fynd drwy'r holiadur.

### f) Ansawdd aer

| Gwerth             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| 1                  | 5                  | 0              |
| 2                  | 11                 | 1              |
| 3                  | 41                 | 6              |
| 4                  | 109                | 15             |
| 5                  | 333                | 48             |
| 6                  | 188                | 27             |
| Cyfanswm ymatebion | 687                | 97             |
| Dim ateb           | 18                 | 3              |

Roedd pwysigrwydd rheoli ansawdd aer i'r ymatebwyr unwaith eto'n debyg i'r ymatebion i gwestiynau (d) ac (e). Roedd mwyafrif yr ymatebion ar ochr uchaf i ganol y raddfa (roedd 90% wedi dewis pedwar, pump neu chwech ar y raddfa) ac roedd y mwyafrif (47%) wedi nodi lefel pump o ran pwysigrwydd.

### g) Gwastraff

| Gwerth | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------|--------------------|----------------|
| 1      | 2                  | 0              |
| 2      | 3                  | 0              |
| 3      | 10                 | 1              |
| 4      | 56                 | 8              |

|                    |     |    |
|--------------------|-----|----|
| 5                  | 319 | 45 |
| 6                  | 296 | 42 |
| Cyfanswm ymatebion | 686 | 97 |
| Dim ateb           | 19  | 3  |

Pan holwyd am bwysigrwydd rheoli gwastraff, nododd y mwyafrif (45%) lefel 6 ar y raddfa. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebion (87%) ar ochr uchaf y raddfa (5 a 6). Mae rheoli gwastraff yn y diwydiant amaeth yn bwysig iawn gan fod diffyg rheolaeth yn gallu arwain at drwytholchi i'r amgylchedd gan halogi tir a ffynonellau dŵr. Nid deunydd ysgarthol yn unig sydd i'w ganfod mewn gwastraff - gellir hefyd canfod gwrthfotigau, cemegau, deunydd pecynnu a phlastigion. Mae'n bosibl fod ffermwyr yn meddwl mwy am ailgylchu a gwaredu plastig, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn poblogrwydd a sylw yn y wasg ynglŷn â halogiad plastig. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn ymwybodol ac yn dilyn rheoliadau ar gyfer gwaredu gwastraff amaethyddol yn gywir er mwyn diogelu'r amgylchedd a lleihau halogiad (CIWM, 2006).

#### 14. Ydych chi wedi arallgyfeirio eich busnes? Os felly, i ba faes?

| Maes arallgyfeirio         | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|----------------------------|--------------------|----------------|
| Twristiaeth/lletygarwch    | 123                | 17             |
| Ynni adnewyddadwy          | 85                 | 12             |
| Bwyd a diod                | 21                 | 3              |
| Contractio                 | 19                 | 3              |
| Cludiant                   | 6                  | 1              |
| Adeiladu / trawsnewid      | 4                  | 0              |
| Rhentu tir neu eiddo       | 4                  | 0              |
| Gweithio oddi ar y fferm   | 4                  | 0              |
| Newid anifeiliaid / da byw | 2                  | 0              |
| Moch                       | 5                  | 0              |
| Geifr                      | 2                  | 0              |
| Ieir                       | 6                  | 1              |
| Tyfu cnydau                | 2                  | 0              |
| Gwerthu peiriannau         | 2                  | 0              |
| Heb arallgyfeirio          | 344                | 49             |
| Arall                      | 18                 | 2              |
| Cyfanswm ymatebion         | 661                | 94             |
| Dim ateb                   | 44                 | 6              |

Ar y cyfan, roedd 55% o'r ymatebwyr yn nodi nad ydynt wedi arallgyfeirio eu busnesau (gan gyfuno'r rhai a oedd heb ateb gyda'r atebion negyddol i'r cwestiwn yma) ac roedd 45% o ymatebwyr wedi arallgyfeirio. Y math mwyaf cyffredin o arallgyfeirio o fewn y grŵp yma oedd twristiaeth a lletygarwch (17%) - e.e. unedau glampio, mannau

gwersylla, rhentu bythynnod neu dai gwyliau ayb. Mae twristiaeth yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r economi yng Nghymru, gyda nifer o bobl o'r DU, Iwerddon, yr Almaen a'r UDA yn teithio yma yn eu niferoedd i fwynhau'r amgylcheddau naturiol. Amcangyfrifir fod twristiaeth yn dod ag oddeutu £5.1 biliwn y flwyddyn i Gymru, gan wneud arallgyfeirio i'r maes hwn yn opsiwn deniadol, ac mae'r opsiwn yma'n cael ei gefnogi gan Gronfa Fuddsoddi Twristiaeth Cymru - buddsoddi mewn busnesau twristiaeth newydd (Busnes Cymru, 2016).

Math arall o arallgyfeirio a oedd yn boblogaidd yn yr arolwg oedd ynni adnewyddadwy (12%), o ystyried newidiadau ar ôl Brexit i gynlluniau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, gallai hyn arwain at ddiddordeb cynyddol mewn ynni adnewyddadwy. Yn y gorffennol, roedd grantiau a chyllid ar gael i ffermwyr gyda diddordeb mewn ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, nid yw cymorth o'r fath ar gael erbyn hyn. Er bod y buddsoddiad cychwynnol mewn systemau megis ynni biomas yn gallu bod yn uchel, mae'r buddion hirdymor yn glir, gallai gostyngiad yng nghost y dechnoleg a mwy o gyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd weithredu fel cymhellant pellach.


Roedd dewisiadau poblogaidd eraill yn cynnwys bwyd a diod (3%) a chontractio (3%). Mae arallgyfeirio i gadw caffis, tafarndai/bwytaï a siopau fferm yn ymddangos yn ddewisiadau rhesymegol gan fod ffermwyr yn gallu gwerthu eu cynnyrch eu hunain yn uniongyrchol oddi ar y fferm - cyfle deniadol ar gyfer cynhyrchwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd (NFU Mutual, 2018). Fodd bynnag, mae'r incwm yn gymharol isel sy'n gofyn am sgiliau marchnata clyfar, buddsoddi er mwyn sefydlu'r busnes a chydymffurfio gyda rheoliadau cynhyrchu bwyd.

#### 15. Os nad ydych chi wedi arallgyfeirio eich busnes, ydych chi'n bwriadu gwneud hynny dros y 3 blynedd nesaf?

| Ymateb                         | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                            | 76                 | 11             |
| Nac ydw                        | 292                | 41             |
| Yn dal i ystyried gwneud hynny | 156                | 22             |
| Cyfanswm ymatebion             | 524                | 74             |
| Dim ateb                       | 181                | 26             |

Mae'n gasgliad teg i nodi, gan ddefnyddio data o gwestiynau 15 a 16, o'r grŵp a holwyd, roedd 45% eisoes wedi arallgyfeirio eu busnesau, ac o'r rhai nad ydynt wedi arallgyfeirio (55%), roedd oddeutu hanner ohonynt yn ystyried gwneud hynny neu'n bwriadu gwneud hynny o fewn y tair blynedd nesaf. Mae arolwg busnes fferm DEFRA o 2016-17 yn awgrymu bod 60% o ffermydd y DU eisoes wedi arallgyfeirio ac mae Busnes Cymru yn adrodd o fis Gorffennaf 2019, bod 40% o ffermydd Cymru wedi gwneud hynny hefyd. Mae'n debygol y bydd ffermwyr yn parhau i chwilio am gyfleoedd i arallgyfeirio er mwyn hybu eu hincwm a gwneud eu busnesau'n fwy cynaliadwy, wrth

wynebu newidiadau i gymorthdaliadau ac wrth golli marchnadoedd rhyngwladol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.



16. Pa gymorth arall hoffech chi ei dderbyn gan Cyswllt Ffermio i gynorthwyo i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant eich busnes?

| Math o ymateb                                                                                                    | Number of responses | % responses |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|-------------|
| Cymorth ariannol (gan gynnwys grantiau)                                                                          | 41                  | 6           |
| Gwybodaeth a chefnogaeth gyda chreu ceisiadau grant                                                              | 56                  | 8           |
| Cyllid ar gyfer prawf trelar a thrwydded HGV                                                                     | 16                  | 2           |
| Cymorth a chyngor ynglŷn â bioamrywiaeth, cynaliadwyedd a'r amgylchedd (gan gynnwys plannu coed a rheoli coetir) | 33                  | 5           |
| Cyrsiau ychwanegol neu fwy amrywiol (gan gynnwys lleoliadau daearyddol)                                          | 30                  | 4           |
| Gwell cyfathrebu ynglŷn â'r cyrsiau a'r hyn sydd gan Cyswllt Ffermio i'w gynnig                                  | 30                  | 4           |
| Cyrsiau cyfrifiaduron/TG a chefnogaeth                                                                           | 26                  | 4           |
| Technoleg fferm (amaethyddiaeth manwl gywir, EID, ayb)                                                           | 9                   | 1           |
| Cefnogaeth gyda threth a TAW digidol                                                                             | 6                   | 1           |
| Cymorth gyda chynllunio a rheoli maetholion (gan gynnwys samplu pridd)                                           | 26                  | 4           |
| Cyngor a chymorth gydag arallgyfeirio                                                                            | 25                  | 3           |
| Cyngor ar Brexit a'r llywodraeth                                                                                 | 20                  | 3           |

|                                                                |     |    |
|----------------------------------------------------------------|-----|----|
| Cyngor ar iechyd a lles anifeiliaid a rheolaeth                | 18  | 2  |
| Cyngor ar gynllunio busnes                                     | 13  | 2  |
| Mwy o grwpiau trafod                                           | 13  | 2  |
| Cyngor a hyfforddiant ar reoli glaswelltir                     | 13  | 2  |
| Cefnogaeth ar gyfer ffermwyr ifanc neu newydd ddyfodiaid       | 12  | 2  |
| Gwybodaeth a chyngor ar ddyfodol ffermio                       | 12  | 2  |
| Cyngor ynglŷn ag olyniaeth (teuluol)                           | 7   | 1  |
| Mwy o gymorth ar gyfer busnesau bach a grantiau bychain        | 7   | 1  |
| Mwy o gymorth a hyfforddiant ymarferol                         | 6   | 1  |
| Mentora a chyngor un i un                                      | 6   | 1  |
| Cyngor a chyllid ar gyfer ynni adnewyddadwy                    | 5   | 1  |
| Cyngor a hyfforddiant ar gymorth cyntaf neu iechyd a diogelwch | 5   | 1  |
| Cymorth a chyngor ynglŷn ag iechyd meddwl                      | 5   | 1  |
| Cyngor a chymorth ar gyfer meincnodi                           | 4   | 0  |
| Mwy o gymorth ar gyfer ffermwyr organig                        | 4   | 0  |
| Arall                                                          | 11  | 1  |
| Bodlon gyda'r ddarpariaeth bresennol                           | 33  | 5  |
| Cyfanswm ymatebion                                             | 398 | 56 |
| Dim ateb                                                       | 309 | 44 |

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 22 yn hynod o amrywiol gan ei fod yn gofyn am ateb yng ngeiriau'r ymatebwyr eu hunain. Er hynny, roedd modd categorio'r mwyafrif i isbynciau ychydig yn ehangach at ddibenion eglurdeb. Y cais mwyaf cyffredin am gymorth oedd ar gyfer grantiau a chyllid - gyda 6% yn gofyn am "fwy o grantiau" ac 8% yn dymuno cael mwy o gefnogaeth a chymorth yn ystod y broses o ymgeisio ar gyfer grantiau. Prif nod Cyswllt Ffermio yw trosglwyddo a chyfnewid gwybodaeth ac nid yw'n darparu cymorthdaliadau na grantiau/cyllid ar gyfer gwelliannau ar y fferm (e.e. adeiladu siediau). O fwy o ddiddordeb yma o bosibl yw'r cais am gymorth wrth ymgeisio ar gyfer grantiau - help gyda gwaith papur, arweiniad ar yr hyn sy'n gwneud cais yn un da a hysbysiadau ynglŷn ag argaeledd grantiau. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cefnogaeth i fusnesau fferm er mwyn paratoi cynlluniau busnes er mwyn cefnogi ceisiadau grant ac mae mynychu rhai o ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio yn un o'r amodau ar gyfer ymgeisio am rai o grantiau Llywodraeth Cymru.

Y consensws cyffredinol ymysg ymatebwyr oedd bod aelodau'n ystyried grwpiau trafod ac ymweliadau fferm yn ddefnyddiol iawn. Mae nifer yn ystyried cyrsiau hyfforddiant yn werthfawr (4%) ond byddai rhagor o gyfathrebu yn eu cylch yn ogystal â hyblygrwydd, e.e. cynnal cyrsiau ar benwythnosau neu gyda'r nos, yn ddefnyddiol. Mae'r cais am fwy o grwpiau trafod a chysiau mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru yn anodd oherwydd natur wledig Cymru. Nid oes modd cynnal grwpiau trafod a chysiau hyfforddiant ym mhob ardal, ac mae'n rhaid i Cyswllt Ffermio flaenoriaethu'n unol â hynny. Mae Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig ystod eang o ddeunyddiau e-ddysgu i'w aelodau ac er bod cwestiwn 11 yn nodi bod aelodau'n ymwybodol o hynny, mae'n bosibl nad ydynt yn ymwybodol y gallai'r cynnwys ddarparu cynnwys tebyg i'r hyn a drafodir mewn rhai o'r cyrsiau hyfforddiant (e.e. Gwella Busnes).

Fel y nodir yng nghwestiwn 14(d), bydd cyllid y Cynllun Taliad Sylfaenol yn dod i ben dros y blynnyddoedd nesaf a bydd cynlluniau sy'n canolbwyntio mwy ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cymryd ei le. O ganlyniad, nid yw'n syndod y byddai 8% o'r ffermwyr a holwyd yn dymuno derbyn gwybodaeth bellach ynglŷn â sut i wella bioamrywiaeth ar eu ffermydd a sut i ddiogelu cynefinoedd er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd a'u hól troed carbon. Yn benodol, roedd ymatebwyr yn dangos diddordeb mewn plannu coed ac amaeth goedwigaeth.

Cais cyffredin arall oedd ar gyfer hyfforddiant TGCh gydag oddeutu 4% o'r rhai a holwyd yn mynegi diddordeb. Mae Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn cynnig amrywiaeth o wahanol hyfforddiant cyfrifiadurol - trwy gyrsiau ar lein, gweithdai grŵp neu hyfforddiant un i un. Mae'r dull hyblyg hwn yn rhoi opsiynau i'r aelodau gan ddibynnu ar eu dull dewisol o ddysgu. Gallai egluro hyn ymhellach i aelodau a darparu gwybodaeth ymhell ymlaen llaw fod o fudd er mwyn helpu ffermwyr i gael mynediad at y rhain.

Yn olaf, mae Brexit a dyfodol y diwydiant amaeth yn bwnc poblogaidd o fewn cymdeithas yn ogystal â byd amaeth. Roedd oddeutu 4% o ymatebwyr yn gofyn am ragor o fanylion am Brexit a chefnogaeth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r ansicrwydd yn ymwneud ag ymadawiad Prydain o'r UE yn bellgyrhaeddol ac mae eisoes wedi effeithio ar fusnesau'r DU a'r economi. Mae Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd yn darparu hyfforddiant ac yn hwyluso datblygiad gwledig gyda dyfodol byd amaeth mewn golwg. Bydd parhau i gyfrannu at foderneiddio'r diwydiant, annog arallgyfeirio a gwella lefelau sgiliau ym myd amaeth yn helpu ffermwyr i edrych yn fwy hyderus tua'r dyfodol.

### 17. Ydych chi'n rhan o unrhyw gynllun(iau) sicrwydd neu achredu?

Cyflwynwyd cwestiynau 23-26 rhan o'r ffordd drwy'r arolwg yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, cafwyd llai o ymatebion (280) i'r cwestiynau hyn. Noder fod y cyfrifiadau canran ar gyfer y pedwar cwestiwn hwn yn seiliedig ar nifer yr ymatebion, ac nid ar gyfanswm yr ymatebion o reidrwydd.

| Ymateb             | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                | 200                | 71             |
| Nac ydw            | 80                 | 29             |
| Cyfanswm ymatebion | 281                | 100            |

Mae'n ymddangos fod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn nodi bod mwyafrif y garfan lai (71%) yn aelodau o gynlluniau sicrwydd neu achredu.

### 18. Os felly, cadarnhewch ba gynllun:

| Cynllun | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|---------|--------------------|----------------|
|---------|--------------------|----------------|

|                                          |            |            |
|------------------------------------------|------------|------------|
| FAWL (Farm Assured Welsh Livestock)      | 178        | 91         |
| Red Tractor                              | 14         | 7          |
| Organig (Heb ei nodi)                    | 10         | 5          |
| Acoura                                   | 2          | 1          |
| CLA                                      | 2          | 1          |
| SAOS (Soil Association Organic Standard) | 2          | 1          |
| Arall                                    | 9          | 5          |
| <b>Ymatebion eraill</b>                  | <b>195</b> | <b>100</b> |

Y cynllun achredu mwyaf poblogaidd ymysg y rhai a oedd wedi ateb 'ydw' i gwestiwn 23 oedd FAWL (Farm Assured Welsh Livestock), gyda 25% o'r rhai a holwyd yn nodi eu bod yn aelodau. Mae Cymru'n adnabyddus ar draws y byd am gynhyrchu cig oen o ansawdd ardderchog ac yn ddiweddar wrth i incwm cwsmeriaid gynyddu, maent wedi dechrau canolbwyntio ar darddiad cig a safonau iechyd a lles cyn i'r anifeiliaid fynd i'r lladd-dy (Duffy & Fearne, 2009; Kearney, 2010). O ganlyniad, mae nifer o gwsmeriaid bellach yn chwilio am logo cynllun achredu neu sicrwydd wrth brynu cig fel ffordd sydyn a rhwydd o sicrhau safonau gofal o'r fferm i'r plât (Mills, 2018). Felly, gallai fod o fudd i'r ffermwr fod yn rhan o gynlluniau o'r fath a fyddai'n eu galluogi i sicrhau prisiau uwch am eu cynnyrch, cynnig cyfleoedd marchnata ehangach a'u galluogi i gyfrannu at hyder cwsmeriaid yn niwydiant amaeth Cymru (trafodir y rhesymau dros ymuno â chynlluniau sicrwydd yng nghwestiwn 26).

19. Os nad ydych chi'n aelod ar hyn o bryd, ydych chi wedi bod yn aelod o gynllun yn flaenorol?

| <b>Ymateb</b>             | <b>Nifer yr ymatebion</b> | <b>% yr ymatebion</b> |
|---------------------------|---------------------------|-----------------------|
| Do                        | 19                        | 24                    |
| FAWL                      | 10                        | 13                    |
| Red Tractor               | 1                         | 1                     |
| Caravan council           | 1                         | 1                     |
| Trading Foods             | 1                         | 1                     |
| Naddo                     | 60                        | 77                    |
| <b>Cyfanswm ymatebion</b> | <b>78</b>                 | <b>100</b>            |


Ymysg y rhai a atebodd 'na' i gwestiwn 23, roedd y mwyafrif (77%) hefyd yn nodi nad ydynt erioed wedi bod yn rhan o gynllun sicrwydd nac achredu. Gallai canlyniadau o'r fath awgrymu fod y penderfyniad i gymryd rhan mewn cynllun yn un cadarn ac y byddai'r rhai a fyddai'n ymuno yn debygol o barhau i fod yn rhan o'r cynllun. Nid yw'n glir a yw hynny'n gyfan gwbl o ganlyniad i'r buddion a geir drwy fod yn rhan o'r cynllun ai peidio.

20. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fuddion o fod yn rhan o gynllun sicrwydd neu achredu?

| Ymateb                                                                                         | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|----------------|
| Ydw                                                                                            | 126                | 64             |
| Gwell prisiau am y stoc                                                                        | 20                 | 10             |
| Gwell cyfleoedd i werthu stoc                                                                  | 36                 | 18             |
| Methu gwerthu heb fod yn rhan o gynllun                                                        | 13                 | 7              |
| Sicrhau safonau iechyd a lles anifeiliaid (ar y fferm) ac ansawdd y cynnyrch (oddi ar y fferm) | 12                 | 6              |
| Mwy o ddiddordeb gan brynwyr/cwsmeriaid                                                        | 4                  | 2              |
| Darparu gwybodaeth                                                                             | 2                  | 1              |
| Sicrhau cadw cofnodion a gwaith papur yn effeithiol                                            | 2                  | 1              |
| Nac ydw                                                                                        | 68                 | 35             |
| Ansicr                                                                                         | 7                  | 4              |
| Cyfanswm ymatebion                                                                             | 197                | 100            |

O'r rhai sy'n aelodau o gynllun, roedd 64% yn cytuno bod manteision i fod yn rhan o gynllun gwarant neu achredu, roedd nifer fechan yn ansicr ac nid oedd 35% yn credu bod unrhyw fuddion. I'r mwyafrif (18%), y brif fantais oedd gwell cyfleoedd i werthu stoc gan fod mwy o opsiynau ar gael o ran lladd-dai ac unedau prosesu sy'n fodlon derbyn stoc. Ar y cyfan, mae hyn yn hwyluso'r broses ac yn ei wneud yn fwy proffidiol gan fod ffermwyr yn cael dewis i le i anfon eu stoc. Yr ail ymateb fwyaf poblogaidd oedd bod ffermwyr yn derbyn gwell pris am eu hanifeiliaid fel aelodau o'r cynllun - mae hyn oherwydd y safonau sicrhau ansawdd sy'n cael eu gorfodi gan y cynlluniau sy'n aml yn golygu bod modd codi prisiau uwch ar y cwsmer. Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn nodi nad oedd modd iddynt werthu eu stoc heb fod yn aelod o gynllun, sy'n cael ei gefnogi gan y nifer cynyddol o unedau prosesu'n mynnu bod angen prynu stoc oddi ar ffermydd gyda sicrwydd - yng Nghymru, FAWL yw'r cynllun hwn fel arfer. Mae'r cynllun sicrwydd yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr ddangos eu harbenigrwydd, didwylledd ac ansawdd eu stoc sydd, yn ei dro, yn rhoi hyder i'r cwsmeriaid yn y cynnyrch maen nhw'n ei brynu - dim ots ar ba gam o'r gadwyn gyflenwi (FAWL, 2019).

## Do you think that there are any benefits to being a member of an assurance scheme?



## 21. Lleoliad daearyddol ymatebwyr

| Sir                      | Nifer yr ymatebion | % yr ymatebion |
|--------------------------|--------------------|----------------|
|                          | 2019               | 2019           |
| Pen-y-bont               | 5                  | 1              |
| Caerffili                | 7                  | 1              |
| Caerdydd                 | 2                  | 0              |
| Sir Gâr                  | 95                 | 13             |
| Ceredigion               | 74                 | 10             |
| Conwy                    | 41                 | 6              |
| Sir Ddinbych             | 32                 | 5              |
| Sir y Fflint             | 16                 | 2              |
| Gwynedd                  | 79                 | 11             |
| Ynys Môn                 | 37                 | 5              |
| Sir Fynwy                | 30                 | 4              |
| Castell Nedd Port Talbot | 11                 | 1              |
| Casnewydd                | 2                  | 0              |
| Sir Benfro               | 45                 | 6              |
| Powys                    | 186                | 26             |
| Rhondda Cynon Taf        | 7                  | 1              |
| Abertawe                 | 10                 | 1              |
| Bro Morgannwg            | 7                  | 1              |
| Wrecsam                  | 14                 | 2              |

|                    |     |    |
|--------------------|-----|----|
| Cyfanswm ymatebion | 702 | 99 |
| Dim ateb           | 3   | 1  |

Mae cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (26%) yn yr arolwg hwn yn byw ym Mhowys, gyda 13% yn byw yn Sir Gâr ac 11% yng Ngwynedd. Y siroedd gyda'r niferoedd lleiaf oedd Torfaen, Casnewydd, Caerdydd a Blaenau Gwent (gyda 2 ymatebwr o bob sir). Mae Casnewydd a Chaerdydd yn ardaloedd mwy trefol, gan egluro o bosibl pam fod llai o aelodau'n byw yno. Yn gyffredinol, mae'r dosbarthiad hwn yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol busnesau sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

## Sylwadau i gloi

Er bod yr arolwg wedi dangos bod gan fwyafrif helaeth yr ymatebwyr uchelgais glir ar gyfer dyfodol eu busnesau fferm, roedd hefyd yn dangos mai ychydig iawn sydd â chynllun busnes ysgrifenedig yn ei le. Gan fod Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig cymorth ar gyfer cynllunio busnes, gallai fod yn werth hyrwyddo'r gwasanaeth hwn ymhellach.

Fel sydd wedi cael ei amlygu drwy gydol yr adroddiad, mae'r aelodau Cyswllt Ffermio a holwyd wedi nodi bod grwpiau trafod ac ymweliadau fferm wedi bod o fudd mawr ac yn ddiddorol iawn. Mae gallu gweld arferion ar waith yn apelio i gamau arsylwi myfyriol ac arbrofi gweithredol yng nghylchred ddysgu Kolb - mae gwyllo a gwneud yn adnoddau defnyddiol iawn ar gyfer dysgu. Mae dysgu gan gyfoedion ym myd amaeth hefyd yn effeithiol iawn, gan fod cyfoedion sy'n cyflawni gweithred benodol yn gredadwy, yn berthnasol ac yn ennyn ymddiriedaeth ffermwyr eraill. Mae ffermwyr yn pryderu'n benodol am arallgyfeirio wrth wynebu'r ansicrwydd presennol yn economi a gwleidyddiaeth y DU. Cafwyd cais am ragor o gefnogaeth gyda syniadau arallgyfeirio.

Mae'n galonogol hefyd gweld mwy a mwy o ddiddordeb mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Roedd y ffermwyr a holwyd yn nodi pryder ynglŷn â bioamrywiaeth a chynefinoedd ar eu ffermydd ac yn mynegi diddordeb mewn gwella cynaliadwyedd a lleihau effeithiau amgylcheddol. Gan fod y Cynllun Taliad Sylfaenol yn mynd i ddod i ben a chael ei ddisodlo gan systemau newydd sy'n seiliedig ar agweddau amgylcheddol a chynaliadwyedd, mae'n debyg y byddai paratoi ar gyfer y newid o fudd mawr. Bydd cefnogi ffermwyr i ymgysylltu gyda chynlluniau megis plannu coed ar eu tiroedd yn bendant o fudd mawr.

Pan holwyd ynglŷn â chymorth pellach, roedd tua 8% o'r rhai a holwyd yn nodi bod Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig gwasanaeth defnyddiol iawn ac nid oeddent yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'n bwysig cofio, wrth edrych ar adborth, bod nifer yn ystyried y gwasanaeth yn werthfawr.

## Llyfryddiaeth

Chartered Institute of Waste Management (CIWM) (2006), Waste Management (England and Wales) Regulations 2006 (accessed 21/02/19 at: [http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2006/937/pdfs/ukxi\\_20060937\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2006/937/pdfs/ukxi_20060937_en.pdf)).

Duffy. R and Fearn. A (2009), Value perceptions of farm assurance in the red meat supply chain, *British Food Journal*, **111**(7): 669-685.

FAWL (Farm Assured Welsh Livestock) (accessed 31/10/19 at <http://www.fawl.co.uk/index.php/about-fawl>).

Foster. A. D and Rosenzweig. M. R (1995), Learning by doing and learning from others: Human capital and technical change in agriculture, *Journal of Political Economy*, **103**(6): 1176-1209.

Glastir (2019), Welsh Government (accessed 20/01/2020 at <https://gov.wales/glastir>)

Gordon. D, Zadoks. R, Skuce. P and Sargison. N (2012), Confirmation of triclabendazole resistance in liver fluke in the UK, *Veterinary Record*, **171**: 159-160.

Gov.uk (2019), Woodland creation grant: Countryside Stewardship (accessed 28/10/2019 at <https://www.gov.uk/guidance/woodland-creation-grant-countryside-stewardship>).

Kearney. J (2010), Food consumption trends and drivers, *Philosophical Transactions of the Royal Society B*, **365**(1554): 2793-2807.

Lima. E, Hopkins. T, Gurney. E, Shortall. O, Lovatt. F, Davies. P, Williamson. G and Kaler. J (2018), Drivers for precision livestock technology adoption: a study of factors associated with the adoption of electronic identification technology by commercial sheep farmers in England and Wales, *PLOS One*, **13**(1).

Mills. G (2018), Assessing farm assurance schemes in the UK, *Veterinary Record*, **183**: 80-82.

Morgan-Davies. C, Wishart. H, Lambe. N. R, Kenyon. F, McBean. D, Waterhouse. A and McCracken. D. I (2015), EID and other technological advances in small ruminant research, *International Animal Health Journal*, **2**(4): 64-67.

NADIS (2019), Animal health skills: Lameness control in sheep (accessed 31/10/19 at <https://www.nadis.org.uk/disease-a-z/sheep/lameness-control-in-sheep/>)

NFU Mutual (2018), Diversification report (accessed 29/10/19 at <https://www.nfumutual.co.uk/farming/farming-diversification/>).

Milne. C. E, Dalton. G. E and Stott. A. W (2007), Integrated control strategies for ectoparasites in Scottish sheep flocks, *Livestock Science*, **106**(2-3), 243-253.

Nixon. E. J, Vineer. E. R and Wall. R (2017), Treatment strategies for sheep scab: an economic model of farmer behaviour, *Preventative Veterinary Medicine*, **137**: 43-51.

Ofcom (2018), Getting rural areas connected in Wales (accessed 28/10/19 at <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/media/media-releases/2018/getting-rural-areas-connected-in-wales>).

Rose. H (2011), Ovine psoroptic mange: risk and management (*Doctoral dissertation, University of Bristol*).

The Woodland Trust (2019), Large scale planting (accessed 28/10/2019 at <https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/large-scale-planting/>).

Welsh Government (2017), Future Landscapes: Delivering for Wales (accessed 22/02/19 at: <https://www.afwdl.cymru/wp-content/uploads/2018/02/170508-future-landscapes-delivering-for-wales-en.pdf>).

Welsh Government (2019), Consultation: Sustainable Farming and our land (accessed 29/10/2019 at <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-07/brexit-consultation-document.pdf>).